**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PWYLLGOR ARCHWILIO**

Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Archwilio Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 12 Medi 2016 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 2pm.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr:

| | |
|---|---|
| J R Skelland (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cllr A Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J G Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| A M Jones | Cyngor Gwynedd |
| D MacRae | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Taylor | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| W O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |
| J Vaughan | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Wisinger | Cyngor Sir y Fflint |

HEFYD YN BRESENNOL:

D Docx (Trysorydd Dros Dro a Dirprwy Brif Swyddog Tân); G Owens (Dirprwy Glerc); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); K V Williams (Adran Archwilio, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); A Hughes (Swyddfa Archwilio Cymru); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

YMDDIHEURIADAU:

| | |
|---|---|
| A I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| W P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| G G Williams | Cyngor Gwynedd |

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Dim.

2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 6 MEHEFIN 2016

2.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mehefin eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

2.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gofnod cywir.**

3 MATERION YN CODI

3.1 7 Datganiad Llywodraethu Blynyddol – nodwyd bod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi cael ei newid yn dilyn argymhellion a gafwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru. Bydd y fersiwn ddiwygiedig yn cael ei chyflwyno gyda datganiad o gyfrifon 2015-16.

4 GWEITHGARWCH RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDDION ARIANNOL

4.1 Cafodd yr adroddiad ei gyflwyno er mwyn i'r Pwyllgor Archwilio adolygu'r adroddiad cyn ei gyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub. Un o ofynion Cod Ariannol CIPFA yw bod dangosyddion ariannol yn cael eu monitro'n rheolaidd a bod unrhyw newidiadau sylweddol yn cael eu cymeradwyo. Hefyd, fel rhan o god CIPFA ar Reoli'r Trysorlys, rhaid adrodd ynghylch newidiadau i fenthyciadau hirdymor a'r partïon i gontract.

4.2 Rhoddodd Sandra Forrest gyflwyniad yn y cyfarfod a rhoi taflenni i'r Aelodau a oedd yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol ar y rhaglen gyfalaf, y benthyciadau a'r cyfraddau llog. Atebodd Ms Forrest gwestiynau'r Aelodau, a chadarnhawyd bod yr Awdurdod wedi cydymffurfio â'r holl ofynion statudol a rheoleiddiol sy'n cyfyngu ar lefel y risg sy'n gysylltiedig â'i waith rheoli'r trysorlys.

4.3 Nodwyd y pwyntiau allweddol a ganlyn:

4.3.1 Y tri dangosydd ariannol allweddol – mae'r gofyn am gyllido cyfalaf, ffin gweithredol a therfyn awdurdodedig wedi newid ar gyfer 2016-2017. Mae gwariant cyfalaf wedi mynd yn uwch na'r amcangyfrif gwreiddiol oherwydd bod rhai cynlluniau na chafodd eu cwblhau'n llwyr yn 2015-2016 yn mynd drosodd i 2016-2017. Defnyddir 10% o'r gyllideb refeniw i ariannu'r rhaglen gyfalaf oherwydd profwyd ei bod yn fforddiadwy.

4.3.2 Cafodd yr Aelodau wybod mai'r amcangyfrif diweddaraf ar gyfer newidiadau i gyfraddau llog oedd dim cynnydd hyd y gellir rhagweld. O ran benthyca, mae'r tîm Rheoli'r Trysorlys yn cydymffurfio â'r sefyllfa y cytunwyd arni gan Aelodau'r Pwyllgor Archwilio sef defnyddio benthyciadau byrdymor hyd at y terfynau yn hytrach na chymryd arian mwy tymor hir.

4.4 **PENDERFYNWYD argymell y canlynol i'r Awdurdod Tân ac Achub:**
- **(i) cymeradwyo'r Dangosyddion Ariannol diwygiedig;**
- **(ii) nodi'r partïon i gontract fel y'u rhestrwyd yn yr adroddiad;**
- **(iii) nodi benthyciadau newydd fel y'u rhestrwyd yn yr adroddiad.**

5 ADRODDIAD ARCHWILIO'R DATGANIADAU ARIANNOL

5.1 Yn y cyfarfod, fe wnaeth Amanda Hughes o Swyddfa Archwilio Cymru gyflwyno'r adroddiad archwilio'r datganiadau ariannol. Atgoffwyd yr Aelodau fod Swyddfa Archwilio Cymru wedi cymryd lle KPMG ac mai hi sydd bellach yn gyfrifol am archwilio cyfrifon ariannol yr Awdurdod.

5.2 Aeth Ms Hughes â'r aelodau drwy'r adroddiad, a nodwyd bod Swyddfa Archwilio Cymru yn cyhoeddi adroddiad diamod ar y datganiad o gyfrifon. Diolchodd Ms Hughes i'r holl staff dan sylw, yn arbennig i Sandra Forrest, am eu cymorth gyda'r cyfrifon.

5.3 Tynnwyd sylw'r Aelodau at y gwahanol faterion a ganfuwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, ac yn arbennig at gofrestr asedau'r Awdurdod. Mae'r Swyddfa wedi gwneud argymhellion i wella'r broses o fonitro asedau, caiff y rheini eu gweithredu'n llwyr ac mewn cyfarfod yn y dyfodol adroddir i'r Pwyllgor Archwilio ynghylch y newidiadau i'r gweithdrefnau.

**5.4 PENDERFYNWYD**

**(i) nodi y bydd adroddiad diamod yn cael ei ryddhau ar y datganiad o gyfrifon;**

**(ii) nodi canfyddiadau Swyddfa Archwilio Cymru;**

**(iii) cael yr wybodaeth ddiweddaraf mewn cyfarfod yn y dyfodol ar weithredu'r argymhellion a wnaed er mwyn cysoni proses y gofrestr asedau.**

6 DATGANIAD O GYFRIFON

6.1 Cafodd y datganiad archwiliedig o gyfrifon 2015-16 a'r datganiad llywodraethu blynyddol eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio oherwydd ei fod wedi cael y dasg o sicrhau bod craffu effeithiol yn digwydd ar yr adroddiadau blynyddol, ynghyd â'r dasg o wneud argymhellion i'r Awdurdod. I gydymffurfio â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2010, rhaid i'r datganiadau gael eu cymeradwyo erbyn 30 Medi.

6.2 Rhoddodd Ms Forrest gyflwyniad manwl i'r Aelodau, gan ateb eu cwestiynau am y datganiad. Nodwyd bod y cyfrifon wedi cael eu diwygio'n unol â'r rhan fwyaf o'r canfyddiadau a nodwyd yn adroddiad ISA 260 gan Swyddfa Archwilio Cymru. Roedd 3 camddatganiad heb eu cywiro a thrafodwyd y rhain yn llawn gyda'r Aelodau, ac roedd y cyflwyniad yn amlinellu'r rheswm dros beidio â diwygio'r cyfrifon. Roedd y Llythyr Cynrychiolaeth yn cynnwys ateb ffurfiol i'r archwilwyr am y rheswm dros beidio â chywiro'r camddatganiadau. Cytunwyd gyda'r Aelodau y byddai'r argymhellion yn adroddiad yr archwilydd yn cael eu gweithredu'n llwyr.

6.3 **PENDERFYNWYD argymell i'r Awdurdod Tân ac Achub fod y datganiad archwiliedig o gyfrifon 2015-16 yn cael ei gymeradwyo ar yr amod fod yr Awdurdod yn cael gwybod am argymhellion yr Archwilydd a'r penderfyniad yn 5.4 (iii) uchod.**